Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Enfys Hapus**

**187 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9PN**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

18/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd Enfys Hapus

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Enfys Hapus Nursery and Day Care Centre Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 55 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Ionawr 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn saff yng ngofal y staff. Caiff y plant gyfleoedd da ar gyfer chwarae a dysgu ac anogir eu datblygiad a'u hannibyniaeth trwy ystod o brofiadau chwarae o ansawdd da.

Mae’r staff yn broffesiynol yn eu rolau. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gweithio gyda rhieni i ddarparu ar gyfer anghenion unigol y plant. Mae’r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn gweithredu trefn arferol, polisïau a gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu'n dda. Mae gan y staff wybodaeth dda am ddiogelu.

Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn saff. Mae'r prif ystafelloedd gofal plant â digon o le ac yn awyrog. Mae ystod eang o adnoddau ar gael i'r plant o dan do. Mae angen datblygu'r amgylchedd awyr agored. Mae'r arweinwyr wedi cydnabod hyn ac mae ganddynt gynlluniau ar waith. Mae asesiadau risg digonol ar waith.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Mae'r tîm rheoli presennol wedi gwneud gwelliannau cadarnhaol yn y feithrinfa. Mae rheolwyr yn cefnogi staff yn dda i gadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol. Mae goruchwyliaeth ac arfarniadau ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

## Llesiant — Da

Gall y plant wneud dewisiadau ynghylch sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad a gwybod y byddant yn cael cymorth os bydd ei angen arnynt. Cânt eu hannog i leisio eu hoffterau ac maent yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn y lleoliad. Gwelsom blant yn yr ystafell cyn ysgol yn pleidleisio i ddewis rhwng llyfr stori neu'r blwch rhigwm yn ystod yr amser ar y carped. Mae'r plant yn datblygu hunan-barch da ar draws y feithrinfa.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn gyfarwydd â'r drefn, maent yn hyderus wrth archwilio eu hamgylcheddau yn annibynnol, ac yn gwybod ble i gael gafael ar adnoddau y maent yn mwynhau chwarae â nhw. Maent yn ffurfio perthnasoedd da â'u ffrindiau yn unol â'u hoedran a chyfnod eu datblygiad. Maent yn ffurfio cysylltiadau cadarnhaol â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Gwelsom blant yn aros yn amyneddgar i fynd ar daith natur i'r parc cyfagos, gan ofyn cwestiynau i'r staff am yr hyn y byddent yn ei weld ar y daith gerdded.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Gwelsom blant iau yn gwenu wrth wthio eu pramiau a'u doliau. Maent yn elwa ar amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu sy’n briodol i’w hoedran ym mhob ystafell. Mae ganddynt ddiddordeb yn eu chwarae. Mae rhai yn dangos chwilfrydedd a'r gallu i chwarae ar eu pen eu hunain am gyfnodau sy'n addas i'w hoedran a chyfnod eu datblygiad. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â gweithgareddau a arweinir gan oedolion yn ogystal ag yn annibynnol.

Mae gan y plant lais yn y lleoliad. Gwelsom y staff yn siarad â phlentyn am synau anifeiliaid gan eu bod yn gwybod ei fod yn hoff o anifeiliaid. Arddangosir enghreifftiau o waith celf y plant a ffotograffau ohonynt yn eu chwarae o gwmpas y lleoliad. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o falchder a pherthyn i’r plant.

Mae'r plant yn datblygu ystod o sgiliau trwy eu chwarae. Cânt gyfleoedd i ddod yn annibynnol yn eu chwarae. Fodd bynnag, prin oedd y cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hannibyniaeth amser prydau bwyd. Mae'r plant yn helpu’n barod i dacluso ar ddiwedd y sesiwn chwarae.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn derbyn hyfforddiant diogelu ac yn gweithredu polisi a gweithdrefn diogelu'r lleoliad yn dda. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus wrth drafod diogelu a'r broses atgyfeirio. Dywedodd arweinwyr wrthym eu bod yn cynnal cwisiau senarios o ran diogelu yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth y staff yn parhau'n gyfredol. Mae bwydlenni amser prydau bwyd yn iach a gwelsom y plant yn mwynhau eu prydau bwyd. Mae gwybodaeth am alergeddau a chyflyrau meddygol y plant, ynghyd â chynlluniau gofal iechyd, ar gael i'r staff ar bob adeg. Mae systemau da ar waith ar gyfer gweini bwyd i blant ag alergeddau ac anoddefiadau. Mae'r staff yn gwirio platiau lliw penodol ddwywaith i sicrhau bod y pryd yn cyfateb i'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar ffurflen alergedd y plentyn unigol. Yna caiff y ffurflen hon ei llofnodi gan y cogydd, aelod o'r tîm rheoli a'r aelod o staff sy'n gweini'r bwyd i'r plentyn. Mae'r staff yn cofnodi ffurflenni damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau yn y cartref, sy'n cael eu llofnodi a'u dyddio gan rieni.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda i gynorthwyo a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant. Maent yn dangos esiampl gadarnhaol i'r plant drwy drin ei gilydd a'r plant â pharch a charedigrwydd. Clywsom y staff yn atgoffa'r plant o foesau da ac anogir dweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’ pan fydd prydau bwyd yn cael eu gweini. Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn ffordd garedig a magwrol, ac mae'r plant yn fodlon yn eu gofal. Clywsom aelod o’r staff yn esbonio i blentyn am newid ei gewyn ac yn canu i'r plentyn wrth newid y cewyn.

Mae'r staff yn gyfeillgar, yn ymatebol ac yn rhoi sylw i ddysgu a datblygiad y plant. Mae'r staff yn gefnogol ac yn fagwrol ac yn ymgysylltu yn gadarnhaol â’r plant i gynorthwyo eu chwarae a'u datblygiad. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau ynghyd â thasgau â’ ffocws sy’n cael eu harwain gan oedolion. Clywsom rai caneuon ac ymadroddion Cymraeg achlysurol wedi'u modelu gan y staff, gyda'r plant yn eu copïo.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
| --- | --- |

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff, ac mae pob ymwelydd yn llofnodi i mewn ac allan o'r adeilad. Mae tystysgrifau yswiriant yn gyfredol, yn ogystal â gwiriadau diogelwch arferol ar gyfer yr adeilad ac offer, megis gwiriad diogelwch nwy blynyddol ac offer diogelwch tân. Mae asesiadau risg ar waith i liniaru risgiau i ddiogelwch y plant, y staff ac ymwelwyr. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd i sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â'r broses gadael mewn argyfwng. Mae cofrestrau yn cofnodi'r amseroedd y mae'r plant a'r staff yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn monitro'r llofnodi wrth gyrraedd a gadael y gwasanaeth i sicrhau y cynhelir y cymarebau staff neu y rhagorir arnynt ar bob adeg.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn drefnus. Mae gan bob ystafell sylfaenol deganau ac adnoddau o ansawdd da sy'n briodol o ran oedran. Gwelsom y plant yn defnyddio nifer o adnoddau o'u dewis o dan do, megis doliau, pramiau, blociau adeiladu, deinosoriaid a llyfrau darllen. Arddangosir ffotograffau a gwaith celf y plant sy'n rhoi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Mae'r plant yn yr ystafell cyn-ysgol yn elwa ar fynediad uniongyrchol i ardal chwarae fach yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae gardd fawr ar lawr daear y feithrinfa sydd angen ei datblygu. Mae'r arweinwyr yn cydnabod hyn ac mae ganddynt gynlluniau ar gyfer datblygu'r ardal. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i archwilio'r ardal o'u cwmpas gyda theithiau'n ddiweddar i Gastell Caerdydd, fferm hel mefus lleol a mynd i'r siop lysiau gwyrdd i brynu ffrwythau a llysiau ar gyfer eu prydau a thalu amdanynt. Mae'r plant yn bwyta'r bwyd a brynwyd ac a ddewisir ar gyfer eu prydau pan fyddant yn dychwelyd i'r feithrinfa. Mae toiledau'r plant yn hygyrch ac yn lân.

Cedwir adnoddau ar unedau addas ar gyfer oedran a chyfnod datblygiad y plant ym mhob ystafell. Er enghraifft, yn ystafell y plant bach, roedd adnoddau wedi'u gosod ar y llawr i'r plant gael mynediad hawdd iddynt, ac yn yr ystafell cyn-ysgol, roedd adnoddau'n cael eu storio ar silffoedd i'r plant eu defnyddio'n annibynnol. Mae gan y feithrinfa ddodrefn addas megis byrddau, cadeiriau ac offer cysgu sydd o faint plentyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn fedrus a phrofiadol ac maent yn rheoli'r gwasanaeth i safon dda. Mae'r unigolyn cyfrifol bob amser yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau a nodir yn y rheoliadau gan ddarparu gwybodaeth berthnasol ar yr adegau cywir. Mae'r person â gofal presennol yn gadarn, mae ganddi weledigaeth glir o sut mae'n dymuno datblygu'r feithrinfa ymhellach ac mae'n arwain tîm y staff yn dda iawn. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth i rieni ynglŷn â'r gwasanaeth fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'i addasrwydd ar gyfer eu plentyn. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, ac mae'r staff yn gweithredu'r rhain yn briodol.

Mae'r rheolwyr yn cyflogi nifer priodol o staff sydd â phrofiad a chymwysterau addas i ofalu am y plant. Gwneir pob gwiriad perthnasol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda'r plant. Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Mae system ar waith i olrhain yr hyfforddiant gorfodol. Mae'r staff yn cael eu harolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd sy'n galluogi'r staff a'r rheolwyr i drafod pryderon, diogelu a chyfleoedd hyfforddi. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn i gwrdd â'r rheolwyr yn rheolaidd. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd fod y person â gofal a'r unigolyn cyfrifol yn gefnogol.

Mae gwaith hunanwerthuso yn fyfyriol ac yn nodi meysydd o gryfderau yn ogystal â meysydd ar gyfer gwelliant trwy ystyried barn y staff, y rhieni a'r plant. Cwblheir yr adroddiad ansawdd gofal yn flynyddol. Mae'r lleoliad wedi meithrin ymddiriedaeth a chysylltiadau cyfathrebu da â'r rhieni. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn hawdd mynd atynt, a'u bod yn hapus ar y gwasanaeth a ddarperir i'w teuluoedd. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi adborth y staff ar ddatblygiad eu plant.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol amser prydau bwyd, sy’n berthnasol i’w hoedran a chyfnodau datblygiad.

A2. Parhau i wneud gwaith gwella i’r amgylchedd o dan do ac allan yn yr awyr agored.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a / neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/09/2022